



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.


We also ask that you:


- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>

28915
f. 18





2/12 23

Y RHOSYN A'R LILI;

SEP

DETHOLION

o

GYFANSODDIADAU BEIRDD CYMREIG.

RHAN I.

RHUTHYN:

CYHOEDDWDYD GAN ISAAC CLARKE.

—
MDCCLII.

28915 f 18

I. CLARKE, ABGRAFFYDD, RHUTHYN.



“ Good books, like good actions, best explain themselves ; they most effectually storm both heart and head, their virtues drape them with greatest dignity, the less they are cumbered by eulogistic comment.”

Cymmaint â hyn yna a ddodwn ninnau fel Rhagymadrodd i'r Llyfr bychan hwn, ein RHOSYN A'N LILL. Meiddiwn ei gyflwyno i sylw Beirdd a Llênorion Cymru heb ddim i'w gymmeradwyo ond ei gynnwysiad ; ac os derbyniol a fydd, bwriadwn i ROSYN arall ymddangos yn ngwanwyn y flwyddyn ddyfodol.

RHUTHYN, Hydref 80ain, 1852.

CYNNWYSIAD.

	t.d.
Damhegion Esop	NICANDEB.
Y Llwynog a'r Grawnwin—Y Morgrugyn a Siongeyn y gwair	5
Y Bytheud wedi heneiddio	6
Y Fen wichlyd—Y Mynydd mewn gwewyr...	7
Y Cf a'r Celliog, a'r Cadnaw	8
Y Crange a'i Fab	9
Y Cf a'r cysgod	10
Athrylith	I. G. ALED,
Ieuan Gwynedd	11
" <i>Youth has flown on rosy pinions.</i> "	13
Afon Aled	16
Yr Eos a Minau	18
I'r Haul	TALHALEN,
Hiraeth-gân am Lanfair Talhaiarn	20
Mawl i Gwen o	21
Dafydd yn Fugail	22
Dafydd yn Frenin	PEDR MOSTYN,
Y Cardodyn	24
"Y mae yn stal ei wynt garw ar ddydd dwyreinwynt." ..	25
Enaid	27
Y Delyn	29
Einioes Dyn	ALLEN,
Un Cyfaill Cywir	31
Y Fam a'r Plentyn	RHUVONIAWC,
Tymestl	34
<i>My Cottage Home</i>	I. G. ALED,
<i>The Fontlet</i>	35
Fy Meinwen	TREVOR,
Bardd yn ei Awen	37
Yr Amddifad	CADWALADR,
Pennillion i Eos Aled	I. G. ALED,
Yr Aderyn	38
Yr Ymeangiad	I. G. ALED,
Dyfodiad y Messiah	39
Glân yr Iorddonen	B. AB CYNEFN,
Molawd Str Ddinbych	40
Awenydd	ANDREAS O FON,
	43
	44
	45
	46
	47
	48
	GUTUN PADARN,
	51
	I. G. GEIRIONYDD,
	54
	CALWDFRYN,
	56

Y RHOSYN A'R LILI.

DAMHEGION ESOP.

GAN NICANDER.

Y LLWYNOG A'R GRAWNWIN.

'Roedd unwaith Lwynog, yn y gwin-gynhauaf,
Yn gwylio gwinllan, ddiwedd mis Gorphenaf:
Y winllan hon oedd yn neheudir Ffrainge;
A thros y mur y crogai llawer cainge
O'r addfed rawn toreithiog,
Yn temtio gwanc y Llwynog:
Ac yntau'n neidio am y sypiau grawn
A'i egni glas, a neidio'n uchel iawn.
Ond er crychneidio nes yr oedd e'n fin,
Pallodd yn lân a chyrraedd dim o'r gwin:
Cynhygiodd yn hir,
Ond methodd yn glir:
Toc aeth adre'n gynffon-lippa,
Gan gysuro'i hun fel yma:
"Os methais ddringo'r mur,
"Ba waeth? mae'r grawn yn sur."

Y MORGRUGYN A SIONGCYN Y GWAIR.

Ryw dro, fel mae'r gair,
Daeth Siongcyn y gwair,
(A gyfenwir yn Geiliog y rhedyn,)
A'i wep yn brudd lwyd
O newyn am fwyd,
At daclus dŷ clyd y Morgrugyn.
'Roedd eira tew gwyn
Ar bant ac ar fryn,
A 'sgryttian gan anwyd 'roedd Siongcyn.—

“A gaf fi ddarn o heidden
 “I mi a'r plant rhag angen,
 “(Rwy'n farw bron gan oerni a phoen,)
 “Neu ddarn o groen pytatten?”

“Lle'r oeddit ti, 'r cnaf,
 “Ar dywydd teg braf,
 “Yn lle casglu digon ar hinon yr haf?”

“Wel, gyd â'ch cennad, Ewa,
 “Nid oeddwn i'n segura,
 “Ond canu'n fwyn mewn rhoswair tew,
 “Nes daeth y rhew a'r eira.”

“Ho; felly! 'r neb sy ffoled
 “A dilyn cerdd a baled,
 “Yn lle hel trysor, yn yr haf,
 “Drwy'r tymmor gauaf dawnsied.”

Y BYTHEUAD WEDI HENEIDDIO.

'Roedd hen Fytheuad clustiog
 A welsai ddyddiau gwell,
 Ac iddo fawr ganmoliaeth
 Yn agos ac ym mhell:
 Nid oedd nac ysgyfarnog
 Na llwynog yn y lle
 A'r na's trengasai'n gelain
 Cyd-rhwng ei ddannedd e'.

Ond weithian 'roedd, ysywaeth,
 Yn gibddall, hurt, a hen;
 Collasai'r llygad aswy,
 A'i ddannedd o'i ddwy ên.
 'Roedd yspryd dewr bytheuad
 Yn gryf o'i fewn er hyn;
 Fe'i gwelid ar achlysur
 Yn hela dôl a bryn.

Aeth gyd â mab ei feistr
 I hela baedd y coed;
 Methasai gwyr yr ardal
 A'i ddal na'i saethu 'riod.

Ymaffodd *Towser* ynddo
 Mor ffyrnig ag oedd modd ;
 Ond methodd ddal ei afael,
 Ac felly'r baedd a ffôdd.

Y gwr bonheddig ieuangc,
 O herwydd maint y siom,
 A gurodd *Towser* druan
 A'i bastwn hela'n ffrom :
 Attebai 'r ci 'n wylofus
 O dan y curiad certh,—
 "Nid pallu wnaeth f' ewyllys,
 "Ond pallu wnaeth fy nerth."

Y FEN WICHLYD.

Nid y rhai sy'n tuchan fwyaf
 Sydd bob amser druenusaf.

Ar hyd ffordd drom
 Gan laid a thom
 'Roedd chwe ŷch gynt yn tynnu Men :
 Ac er bod llwyth
 Ddigon i wyth,
 Tynnent hi 'n ddistaw heb na chwŷn na sen.
 A'r Fen ei hun yn cadw swm o hyd,
 Yn gwichian ac yn tuchan llawer byd,
 Y gwaelod rhwth, a'r ochrau,
 A'r echel a'r carfanau.
 "Ffei 'honot, soppen!" ebe'r gyrrwr wrthi,
 "Fe fyddai'n ganwaith harddach i ti dewi ;
 "Yr ychen sy 'n slafio,
 "A thithau sy 'n cwyno!"

Y MYNYDD MEWN GWEWYR.

Mi glywais nad peth rhyfedd
 Bod gyd â gwreng a bonedd
 Addewid uchel, ffrostus, lawn,
 Yn gwtta iawn ei diwedd.

Ni dd'wedaf air yn 'chwaneg,
 Oddieithr mewn Aralleg,

Rhag digio neb i godi ei wrych ;—
Gwel yma ddrych fy nammeg.

'Roedd Mynydd mawr cribog, ni dd'wedir ym mhle,
Mewn gwlad o wastadedd, yn agos i dre :
Fe welai 'r dinaswŷr, ryw ddydd yng Ngorphenaf,
Y Mynydd mewn poen, ac yn edrych yn drymglaf :
'Roedd swm, a chyffroad, a chynnwrwrf anferthol,
A dadwrdd ebychawl, yn tyrfu 'n ei ganol.
Aeth y gair fod y Mynydd mewn gwewyr i esgor ;
Cyd-redodd pawb atto, gan edrych yn sobor,
Yn hen ac yn ieuainge, wrth ganfod ei ofid,
I weled pa fath fyddai'r baban a enid :—
Rhyw glogwyn, mi wrantaf, neu fryncyn bach newydd
Na's gwelwyd o'r blaen, a fydd baban y Mynydd :—
Ond wedi hir-ddisgwyl, mewn dadl a phetrusder,
Ac awrlais y ddinas rhwng pedwar a phump,
A phawb yn bryderus, rhag meithed yr amser,
A'r Mynydd yn fwyfwy anesmwyth ei dymp,
O'r diwedd, (mae'r ddammeg ar orphen,)
Daeth allan o'i ystlys *Lygoden*.

Y CI A'R CEILIOG, A'R CADNAW.

Aeth Ci a Cheiliog unwaith yn gymdeithion
I rodio'r gwledydd ac i wel'd y byd.
Yngwŷll y nŷs, gan daith y dydd yn flinïon,
Aethant i goedwig i orphwyso 'nghyd.
Y naill i frigyn un o'r coed esgynodd,
A'r llall, i warchod, wrth y bôn gorweddodd.

Pan ydoedd gwawr y bore'n dechreu gwenu,
Dechreuai'r Ceiliog ganu, fel arferol ;
A'r adar a'r gwylltflod oll yn synnu
Pwy oedd fel hyn yn canu mor blygeiniol.
Wrth glywed, tybiodd Cadnaw coch newynllyd
Fod yma obaith iddo gael boreubryd.

Daeth at y pren yn llechlyd, ar ei falais,
Gan annerch y Caniadydd fel y canlyn :
"Tydi 'r perorydd mwyna' 'riëd a glywais,
"Mae llais dy fawl yn wych i'r nef yn esgyn.
"Disgyn i lawr i ganu'th bër arwyrain,
"Gael inni lawlaw gyd-gantori plygain."

“Mae'n dda,” medd yntau, “gan fy nghalon weled
 “Dy fod o'r diwedd wedi troi'n Eglwyswr :
 “Ond er mwyn rheol, 'gael i eraill glywed,
 “Rhaid canu'r gloch, fy anwyl gyd-addolwr :
 “Wrth fôn y bren mae'r Clochydd etto'n cysgu,
 “Dos, deffro hwnw, a chais ganddo ganu.”

Er's meityn iawn y Clochydd oedd yn neffro,
 A'i fryd ar gospi brad a rhagrith Madyn ;
 A phan y daeth yn ddigon agos atto,
 Fe'i rhuthrodd ac a'i lladdodd mewn munudyn.
A guddio bull i neb, mewn bradus amcan,
A syrth ond odid yn y pull ei hunan.

Y CRANGO A'I FAB.

Mi welais Grango carfaglog,
 Efe a'i fab ewinog,
 Yn rhodio ar fin y traeth,
 Gan gyd-ymgomio 'n ffraeth
 Am helynt y ceimychiaid,
 A'r coccos mân a'r gwichiaid,
 A'r tywod a'r clai,
 A'r llanw a'r trai,
 A'r modd i ddal llymriaid
 A berdys
 Rhwng deufys.
 Yr ydoedd eu rhodiad di-rwysg
 Ill dau, fel y gwyddoch, yn wysg
 Eu hystlys.

Yr oedd y tad er's meityn
 Yn edrych ar yr hogyn
 Yn llusgo 'i gorpws melyn
 Ar hyd y traeth i'w ddilyn
 Ar osgo, fel pe 'n feddwyn,
 Neu fel pe 'n gloff bryf coppyn ;
 Troes atto braidd yn sydyn,
 A'i annerch fel y canlyn :
 “Fy machgen i, pa'm
 “Rwyt ti 'n cerddad yn gam ?

“Tyr'd, cerdda rhagot ar dy union syth,
 “Neu ni chyrhaeddi ben dy siwrnai byth.”
 “Yn wir, ar f'union syth,” medd yntau, “'r af,
 “Os gwnewch chwi ddangos immi sut y gwnaf.

" Ond cerddad yn gam
 " Byddwch chwi a 'mam
 " Bob amser erioed
 " Hefo 'ch deg troed.
 " Pan welaf chwi 'n ymlwybro'n union,
 " Mi wna 'r un fath o 'wyllys calon."

*Cemni eraill a ganfyddwn,
 Ond ein cemni 'n hun ni's gwelwn.—
 Dyna ystyr cynta 'r ddammeg ;
 Mae un ystyr etto 'n 'chwaneg :
 Wrth i ti addysgu 'th blentyn,
 Gwell yw siampl na gorchymyn.*

Y CI A'R CYSGOD.

Lladrattodd Ci amaethydd
 Ryw fore teg neu gilydd
 Ddryll o gig oddi ar ystôl
 Oedd o'r tu ol i'r cigydd.

Myn'd dros afonig lyfnwedd,
 A'r dernyn rhwng ei ddannedd,
 A gwel'd ei gysgod yn y lli,
 Y cig a'r Ci 'n gyfunwedd.

Meddyliodd yn ei galon
 Mai sylwedd oedd e'n union,
 Ac at y cysgod rhuthrai 'n ddig,—
 A cholli 'r cig i'r afon.

Ac yna cwyno 'n enbyd
 Ei fod e' mor wirionllyd
 A gwerthu sylwedd lluniaeth blith
 Am siom a rhith newynllyd.

Pan fydd dy raib diddarfod
 Am gyfoeth daear isod,
 A'th chwant yn brysur, meddwl di
 Am chwedl y Ci a'r Cysgod.

Fe welwyd aur cybydd-dod,
 O herwydd gwangcio gormod,
 Yn aml yn rhedeg gyd â'r lli,
 'N ol chwedl y Ci a'r Cysgod.

—
ATHEYLITH.
 —

GAN IORWERTH GLAN ALED.
 —

PAN wisgir awyr â chymylau ddon
 Nes byddo'n ddelw brudd yn yr uchelion,
 Yn taenu braw tros ddaear a'i hamrywion,
 Un drem fo yn brydferthaf
 Rhwing ael y cwmwl ddaaf
 Gan SEREN yn siriolaf
 Yn saethu trwy'r tywyllwch belydr byw,—
 "DELW ATHEYLITH YW."

Pan dreiddir isod i goluddion daear
 Rhwing creigiau celyd idd y dyfnaf garchar,
 Nes cyrhaedd mŵn a meini aur digymar,
 Y llygad gloew welir
 Yn t'wynu trwy y cleidir,
 Nes telpyn pridd oleuir,
 Y LLYGAD BYCHAN hwn o auraidd ryw,
 "DELW ATHEYLITH YW."

I lawr, I lawr, rhwing tonau mawr terfysglyd,
 I lawr, I lawr, i'r eigion maith dychrynlyd,
 I lawr, I lawr, rhwing y serth greigiau enbyd,
 Nes cyrhaedd y gwaelodion
 At wely'r coral gwiwlon,
 Lle chwery'r gwyrdd ysbrydion,
 Y GEM ganfyddir fel rhyw lygad byw,
 "DELW ATHEYLITH YW."

Dyrchafer llygad tua'r groch ffurfafen,
 Pan rŷa'r corwynt—diffydd llygad heulwen,
 A thristwch dŷ ar emrynt y ddaearen—
 Nes y gorchfygir anian,
 A'i siglo i hŷn fechan
 Yn dawel fel rhyw faban,
 Clyw'r DARAN GROCH—gwel FELLTEN gyflym fyw
 "DELW ATHEYLITH YW."

Amaethwr gwladaidd ar y ddŷl islaw
 A haua'r hadau o'i lafurus law,
 A'r gwys a'u cuddia erbyn dydd a ddaw—

Ar forau gwanwyn gwyrdd
 Cei weled egin fyrdd,
 O dan ryw ddwyfol urdd,
 Yn gwisgo'r tir o wenith byw—
 "DELW ATHEYLITH YW."

Ar ochr rhôs yn nghanol Cymru wlad
 Un boreu gwelwyd llaw y tyner dad,
 Yn planu mesen dan y briddell fad ;
 Cynyddodd yn bren praffus,
 Gan herio'r gwynt ystormus,
 A'r daran groch ddirmygus,
 A'i wyrion wed'yn gampient dan y Dderwen fyw—
 "DELW ATHEYLITH YW."

Llygad anian yw y *Seren*,
 Rhwng ael cwmwl yn y wybren :
Pelydr aur, a *gem yr eigion*.
 Wnaed i harddu'i monwes dirion ;
Mellten luchir o fron cwmwl
 Nes addurno mantell nifwl,
 Sydd yn enaid fyw y daran
 Prif feddylddrych araeth anian ;
Egin mân oddiar yr hadau
 Yn ymsaethu rhwng y cwysau,
 A ddangosant egni bywiol
 A thueddfryd anorchfygol,—
 Felly'r *blagur*, ar y fesen
 Yn cynyddu'n ddeiliog dderwen,
 Gan ymledu mewn canghenau
 Yn gysgodfawr rhwng y prenau ;
 Bychan, bychan, yw'r cychwyniad,
 Ond ardderchog yw'r perffeithiad ;
 Felly hefyd yn ddiragrith
 Y mae elfen gwir athrylith ;
 Nid oes cwmwl all ei chuddio—
 Nid oes eigion all ei threulio—
 Nid oes creigiau byth a'i lletha,
 Nac un daran a'i tywylla ;
 O dan gwysau dyfnaf daear
 Gweithia allan fel o garchar—
 Er ei gwasgu i faint mesen
 Tyfu wna nes myn'd yn dderwen ;

ANIAN, ANIAN, dyma'r famaeth,
Teifl ei greddf trwy'r byd yn helseth ;
Minau sugnaf o fron *Anian*
Yn dynerfwyn fel ei baban—
Nes cynyddu'n Seraph bywiol
I ail fyw mewn bro ysbrydol.

IEUAN GWYNEDD.

—
GAN IOBWEERTH GLAN ALED.
—

"Ow! i mi ei fyned i'w argel wely."

WEDI MARW!" athrist eiriau!
Treiddio maent fel saethau dur,
Trwy fy nghalon a'm teimladau,
Chwerw iawn yw'm poen a'm cur ;
O! fy nghyfaill, ef a gollais,
Newydd trist oedd hwn i mi ;
Duo wnaeth fy ngwedd pan glywais,
A thywelltais ddagrau'n lli'.

Cilio wnaethum tua'r morlan,
Er cael llonydd gan y byd,
I fy nagrau ffrydio allan
Yn eu heltni mwyaf drud ;
Pan ddiagynodd sain y geiriau
"Wedi marw!" ar fy nghlyw,
Ocheneidiais gyda'r tônau,
Nes fy nghalon deimlai'n wyw.

IEUAN GWYNEDD, "*wedi marw!*"
Yn ei flodau gwywo wnaeth ;
Cwmpwyd ef gan angeu chwerw
O dan ergyd lem ei saeth ;
"Wedi marw!" beth wneir etto ?
Dim ond llunio galar gerdd,
Nes bo adsain ocheneidio
Trwy holl gyrau anian werdd.

Pe y wylwn ddagrau halltach
 Na holl ddafnau'r eigion mawr
 Gan eu lluosogi'n amlach
 Nag aneirif wlith y wawr,
 Ni enillwn Ieuan dyner
 Byth o afael angau'n fyw—
 Rhaid adgofio gyda phrudd-der
 Oer o hyd, mai "*marw yw.*"

Dodwch ef mewn mangre unig
 I orphwyso yn y bedd—
 O dan nawdd rhyw werddlas goedwig
 Lle ca huno hŷn o hedd ;
 Na foed marwol gyrff o'i ddeutu,
 Neb ond ef ac anian werdd—
 Yno'n dawel cuffed gysgu,
 Seinia'r gwynt ei alar gerdd.

Na foed mynor yn dysgleirio
 Byth ar fron ei feddrod dŷ
 Na foed carreg lŷs yn gwylio
 Yno ei weddillion cu—
 Gadewch iddo huno'n dawel
 Heb un adgof uwch ei ben,
 Ond cwynfanau trist yr awel,
 A mân ddagrau gwllith y nen.

Pa ogoniant i'w weddillion
 Fyddai addurniadau drud,
 Cerfiad aur mewn meini gwynion,
 Gorchest celfyddydau'r byd?
 ANIAN fu ei fam dyneraf,
 Gwyliodd drosto drwy ei oes,
 Dan ei chwrlid brith, hawddgaraf,
 Boed ei feddrod heb un loes.

Myrdd mwy hoff i'w wylaidd deimlad
 Yw cael nawdd tywarchen oer,
 Lle bo blodau mân ar dyfiad
 O dan wênau haul a lloer,
 Na phe trwsid ei orweddfan
 A rhyw amgueddfa fawr,
 Wedi britho gyd ag arian,
 Aur a gemau daear lawr.

Seinied yr organau mwynion
 Yn eglwysydd hardda'r byd,
 Nes gorlenwi bro y meirwon
 Drwy'r monwentydd tawel mud,—
 Murmur afon lefn ac addfwyn,
 Sŷad awel leddf y nef,
 Gydag anadliadau'r gwanwyn,
 A siriolo'i feddrod ef.

Boed i fonedd bostfawr daear,
 Ocheneidiau dynol ryw,—
 Llifed iddynt ddagrau galar
 Nes bo'u beddau oll yn wyw ;
 Ond am IREUAN, cwyndd gwyntoedd
 Rhwng canghenau deiliog fyrdd,
 Ar ei fedd boed gwllith y nefoedd,
 I'w addurno'n wŷn a gwyrdd.

Llawer tant chwareuodd yma
 Ar dy delyn, Awen fwyn,
 Tra bu ar ei gyflym yrfa,
 Teimlodd miloedd rym ei swyn—
 Dyro dithau'n ol yr odlau
 Yn deimladol uwch ei fedd,
 A phob adsain o dy dānau
 Fo'n dymuno iddo hedd.

Pob canolddydd, Haul ysblenydd,
 Anfon belyderau'th urdd,
 Er addurno'i dawel wely
 Gydag hardd anfarwol wyrdd ;
 Cerfia mewn briallu gwynion
 Nodwedd ei Awenydd ef,
 Nes i'w ddarllen daw angylion
 Ar adenydd aur o'r nef.

Claddwyd llawer bachgen hawddgar
 Mewn anrhydedd mawr a chlod,
 Etto darfod wnaeth y galar
 Fu am danynt is y rhod ;
 Ond ein HIRUAN, er mor dawel
 Yn ei fedd, mewn unig le,
 Cofir ef tra chwytho awel
 A thra disgyn gwllith o'r ne'.

Anwyl IŴUAN ; huna bellach,
 Hŷn y nefoedd fo i'th ran ;
 Boed dy fedd yn harddach, harddach,
 Anian fyddo'n trwsio'r fan :
Anian anwyl, ein mam dyner,
 Hi a'n magodd ar ei bron :
 Gwyllo wna ein llwch mewn pryder,
 Byw neu farw, MAM YW HON.

Wele bellach ; fyd anhawddgar,
 Ffarwel i'th bleserau gwael—
 Ffarwel holl ddeniadau daear
 Er ymrithio imi'n hael ;
 Ffarwel i bob gau gyfeillion,
 A'r gofidiau ga'dd fy mron,
 Minau gaf obenydd tirion
 Yn nghlyd fonwes daear gron.

Disgyn mae fy hoff gyfeillion
 O fy mlaen i'r dystaw fedd ;
 Collais aml gyfaill tirion,
 Dagrau lifodd dros fy ngwedd :
 Daw fy adeg inau'n ebrwydd,
 "*Argel wely*" fydd fy rhan,
 Hwylia'th delyn, hoff awenydd,
 Gad y byd am nefol fan.

"YOUTH HAS FLOWN ON ROSY PINIONS."

*"And the soft quiet hamlet where he dwelt
 Is one of that complexion which seems made
 For those who their mortality have felt,
 And sought a refuge from their hopes decayed
 In the deep umbrage of a green hill's shade."*

*"Thy very weeds are beautiful, thy waste
 More rich than other climes' fertility."*

GAN IORWERTH GLAN ALED.

AR dwmpath brwyn ar draethell faith,
 Dewisais unig sedd ;
 Yn swm cwynfanus eigion llaith
 Pruddhau a wnai fy ngwedd ;

Un olwg ar ddillynion llon,
 Hardd ddyffryn clodfawr Clwyd,
 Ddeffröai yn fy nhyner fron
 Rhyw brudd hiraethawl nwyd.

Ehedai'm cof at ddyddiau gynt,
 Arferion boreu oes ;
 A swynion fy ieuengaidd hynt,
 I'm bron a daflent loes :
 Fy hoff gyfeillion mwyn eu gwedd
 Giliasant o fy nghol ;
 Gadawsant fi ar lan y bedd
 I wylo ar eu hol !

Awelon pêr, er taenu swyn
 Aroglant blodeu brith,
 I mi, anadlant aethus gwyn
 Oddiar adgofion chwith !
 Hoff lanau Aled ! gynt mor hardd,
 A'ch gwisg yn wyrdd a gwyn,
 Gwywedig ydych fel eich Bardd !
 Hiraethus olwg sÿn !

Pa le mae'r llwyni dan eu dail,
 Fel gwych balasau gaed ?
 A gwylltion flodeu heb eu hail,
 Addurnent ol fy nhraed ?
 Pa le yr adar mwyn eu cerdd,
 Trwy'r gwigoedd byncient gynt ?
 O ! d'wed i mi Lansannan werdd,
 Ar fy hiraethlawn hynt !

Y temlau mân wasgarwyd oll,
 Eu dail yn grinion sydd ;
 Yr hen gerddorion y'nt ar goll—
 Mae'r olwg imi'n brudd !
 Hiraethog äang mwy ni chwadd
 Yn ei hyfrydlawn wynt—
 I mi, o'i olwg mwy ni thardd,
 Delweddau'r amser gynt !

Yn lle dy demlau deiliawg di
 A oeddynt gynt mor heirdd,
 Lle bum yn swyn tylysawg fri—
 Gorchestion gwych dy feirdd :

Fy nheml yw'r awyrawl nen,
 Eangaf gylch i'm bryd,
 A phrudd gymylau uwch fy mhen,
 I'm gwylio sydd o hyd!

Yn lle dy ddolydd bywiog, braith,
 Dan fyrdd o feillion glwys,
 Nid oes i mi ond morlan maith
 I'w rodio'n araf ddwys;
 Peroriaeth dy adarawl gôr,
 A dwndwr Aled rydd,
 A lyncwyd gan gwynfanus fôr,
 A minau ydwyf brudd!

Y traeth tywodlyd deifl fy nhrem,
 At äang wedd ail fyd;
 A chwyth ei awel deneu, lêm,
 Fy meddwl yno'i gyd:
 O'th swm rhuadbell gefnfor glas
 Fy enaid enfyn gri,
 Am sain iachineb dwyfol ras,
 At ffrydlif Calfari!

AFON ALED.

GAN IORWERTH GLAN ALED.

AFONIG FACH, mae'th arian li'
 Yn sisial chwedlau pur i mi,
 Fel miwsig engyl llawn o swyn
 Wrth chwarae eu telynau mwyn;
 Pob tòn wrth chwalu ar y làn,
 Olafnod yw yn alaw'r fân—
 Ac wrth eu gwrando yma'n iach,
 Wyf lon, wyf lon, *afonig fach*.

AFONIG FACH! mae'th ymchwydd di
 Yn tafu delwau heirdd i mi,
 Y werddlâs wig a'i golwg llon
 Ymfurfia'n deml yn dy fron,

A theml yw lle'm henaid drud
 Gâ sŷn-addoli anian fud,
 Ac wrth addoli yma'n iach,
 Wyf lon, wyf lon—*afonig fach*.

AFONIG FACH! os byddaf brudd
 Yn rhywle draw rhyw nos neu ddydd
 A dagrau'n crogi ar fy ngrudd,
 Prysuraf atat ti;
 Eisteddaf ar dy finion glân
 I wrando ar dy dônau mân,
 Nes troir fy ngalar oll yn gân,
 Yn swyn dy arian li'.

Ac ar dy fin, lle mae fy sedd,
 Boed yma ein teuluol fedd;
 Yr eos fach a mi mewn hedd,—
 Gwnawn huno ar dy lân;
 Ni cheisiwn byth alarnad drom,
 Gan ddynol feirdd, rhag ofn un siom;
 Ond adlais gwynt trwy'r goedwig lom,
 I anfarwoli'r fan—
 A si dy dônau'n fwyn ac iach,
 Fo'n chwyddo'r gerdd—*afonig fach*.

Uwch ben ein hunig orwedd fan,
 Gâd i'r elfenau wneyd eu rhan,
 Trwy drwsio'r beddrod ar dy lân
 A dail fo wyrdd;
 Caed anian gerfio geiriau hedd
 Mewn lliwiog flodau ar ein bedd,
 Nes denu yno i gael gwledd
 Ryw sŷnawl fyrdd.
 Er bod y fan yn unig le,
 Efallai daw i'w weled e'
 Rhyw lu o feib yr awen gre'
 Er mwyn yr amser gynt;
 Ond os na ddaw un dynol fôd
 I daro tant awenol glôd,
 Trosglwyddwn *ein gwyleiddiaf nôd*,
 I TI A'B GWYNT.

YR EOS A MINAU.

—
GAN TALHAIARN.
—

MIN nôs yr eös a rydd—ei glwysgân
O'r glasgoed i'r dolydd :
Yn brydlawn e gawn o'r gwydd
Bûr alaw gan bêr eilydd.

A chwyn wirion ei chân eres—gwylaidd
Y geilw ei chymhares,
Yn ei nwyf, i dd'od yn nes
I eilio mal angyles.

A chwyn nwyf ni chân yn ofer—deg emyn
Digymar ei fwynder :
Cla' yw o serch—clyw y ser
Ei phereidd-don a'i phrudd-der.

A'i fliwt fwyn mewn llwyn llonydd—weithiau'n
Weithiau'n llon berorydd ; [lleddf,
Ond da gariad di gerydd
Yw dewis gân duwies y gwydd.

Cymysg hoen a phoen o'i phig—sŵn llafar
Sy'n llifo drwy'r goedwig—
Hedd i'w maswedd a'i miwsig!
Erys y wawr aeres y wîg.

Y leisfwyn eös lwysfach—cwyno'r wyf,
Canu raid im' bellach,
Ac er byw heb fenyw bach,
Gwelliant f'ai byw yn gallach.

Ow, na chawn un ochenâd—o fonwes
Y feinwen anwyf i'w fad ;
Amnaid o'i llygaid yn llâd
I angori fy ngariad.

Yn fy nwyf dwl wyf a di les—bawaidd
Yw byw heb gydmares ;
I Em eurbryd rhoi mawrbres
Y byd a wnawn—ond be' dw'i nes ?

I'R HAUL.

GAN TALHAIAEN.

HENFFYCH haul mând, tad y tês,
 Y duw rhawdrydd dirodres!
 Nefol gawr uwch nifwl gwyn,
 Molaf dy wyneb melyn;
 Bywyd a nawdd ein byd ni
 Yw dylanwad d' oleuni—
 Caraf dy wên ysplenydd,
 Rhof folawd i dy rawd rydd:
 Mor addien yw'th wên a'th wawr,
 Dêr eilun, uwch daearlawr!
 Gwiw a siriol gysurydd
 Einioes a dawn nôs a dydd,
 Ti wênaist pryd dy anwyd,—
 Gweini 'r haf a gwênu 'r wyd;
 A gweini wnei 'n ogonawl
 I Dduw Dad a gwên ddi dawl.

Hebod ti bydda 'r byd têr
 A'i nwyfiant oll yn ofer!
 Byd di wawl! O! be'dyw hyn?
 Arswydaf yn bur sydyn
 Wrth feddwl am y dwl dawch,
 Tywalltiad y tywyll-dawch!
 Ba luniaeth heb oleuni?
 Pa fwynder roddai Nêr i ni?
 Ni cheid gweled rhediad rhydd
 Y milod ar y moelydd,
 Na dyfroedd y llynoedd llon,
 Nac agwedd cesyg eigion,
 Na mawr rwysg coedydd glwys glÿn,
 Na gwênau haf na gwanwyn,
 Na deial na blodeuyn,
 Na gwin da na gwênau dyn.

Llyw anian a'i llawenydd,
 Hirfaith yw dy daith y dydd
 A hirfaith yw dy yrfa
 Y nôs hir yn amser iâ:

Mewn cylchdro yn rhodio'r wyd
 Yn gry' er pan y'th grewyd;
 Drwy bob hin yn ddiffino,
 Uwch dôl a glyn, bryn, a bro;
 A diludd beunydd deli,
 Haul y nef, a'th wawl i ni.

Oanaf a chlodforaf fi
 Dy lûn a dy oleuni:
 Ti huan hoff wyt yn hau
 Gwawl anwyl yn ein glynau,
 A miwsig hyd y meusydd,
 Ceinion flodau, gemau 'r gwydd;
 Amrywiolion ymryliw,
 O! mor gûn eu lûn a'u lliw!
 Arianu wnei ar unwaith,
 Aberoedd a llynoedd llaith;
 Lliwydd ac eurydd goror
 Dolydd a mynydd a môr.

Dy ddelw di addolaf,
 Drag'wyddawl a nefawl Náf:
 Tywynydd gwych—taenydd gwawl—
 Cawr ufydd ou rhyfeddawl—
 Enaid a llygad anian—
 Eilun Duw—olwyn o dân.

HIRAETH-GAN AM LANFAIR TALHAIARN.

—
 GAN TALHAIARN.
 —

Tôn—"Mary Blane."

Er cael pleserau o bob rhyw,
 A byw mewn hufen byd;
 Ni roddant imi fawr o hedd,
 Ond gwagedd ynt i gyd:
 Pa les i mi yw rhodio'n rhydd
 Ar hyd y gwledydd glân?
 Pa fodd y gwnaf ymlawenhau
 A'm ffryndiau ar wahân?

Fy nghalon dirion lam o hyd
 I'r dyffryn clyd lle'm ganwyd i :
 Anghofier fi gan bawb drwy'r byd,
 Os byth anghofiaf di.

Rhyw hudol fwyn hyfrydol fan
 Yw'r llan ar fin y lli ;
 Melusol ydyw cwafriol gân
 Hedyddion mân i mi :
 O lawnder calon bronfraith lân
 Gogleisgân ddi-ddan ddaw,
 A pheraidd swyn y fwyalch fwyn
 O gŵr y llwyn gerllaw :
 Fy nghalon dirion lam o hyd
 I'r dyffryn clyd lle'm ganwyd i :
 Anghofier fi gan bawb drwy'r byd
 Os byth anghofiaf di.

Rho'ir clod i Lundain gain ei gwedd
 A'i mawredd yn mhob man ;
 Er hyny hoffwn fyw yn rhydd
 A llonydd yn ein llan :
 Cawn yno groesaw gan fy mam,
 Heb ofyn pa'm y dois ;
 Na'r achos imi droi yn ol
 O siriol wlad y Sais :
 Fy nghalon dirion lam o hyd
 I'r dyffryn clyd lle'm ganwyd i :
 Anghofier fi gan bawb drwy'r byd
 Os byth anghofiaf di.

Er cael cyfeillion rif y sêr
 A mwynder yn mhob man,
 Hiraethu wna'f am fyn'd yn ol
 I'm genedigol lan :
 Cael eiste'n ymyl aelwyd hardd
 Fy mam, yn fardd o fri,
 Yn nghwmni bechgyn bochgoch iach,
 Mil mwynach yw i mi :
 Fy nghalon dirion lam o hyd
 I'r dyffryn clyd lle'm ganwyd i :
 Anghofier fi gan bawb drwy'r byd
 Os byth anghofiaf di.

Nid oes i mi ond gofid dwys
 Wrth fyw dan bwys y byd ;
 Rhyw oerfel drwy fy monwes draidd
 A gwelwaidd yw fy mhryd :
 Er holl blesecrau'r ddacar hon
 Ni fydd fy mron yn iach,
 Yn unman arall dan y ne',
 Ond yn ein pentre bach :
 Fy nghalon dirion lam hyd
 I'r dyffryn clyd lle'm ganwyd i :
 Anghofier fi gan bawb drwy'r byd
 Os byth anghofiaf di.

Pe cawn adenydd c'lomen dêg
 Chwim hedeg yno wnawn,—
 Dros fryn a dyffryn, dól a gwaen,
 Ymlaen, ymlaen yr awn,
 Nes imi fyn'd i'r dyffryn glwys
 Heb orphwys ar fy hynt ;
 Ond hedeg wnawn i'r hyfryd fan
 Yn fuan fel y gwynt :
 Fy nghalon dirion lam o hyd
 I'r dyffryn clyd lle'm ganwyd i :
 Anghofier fi gan bawb drwy'r byd
 Os byth anghofiaf di.

MAWL I GWENO.

GAN TALHAIRN.

"Fly from the world my dear Bessy to me."—MOORE.

HED ymaith o'r byd, Gweno fwyn, ataf fi,
 Ni weli byth lencyn ffyddlonach ;
 Mwy gwerthfawr na'r byd yw dy gariad i mi,
 Ni welaf byth eneth anwylach :
 Na ddywed mewn tristwch a'th lygaid yn lli—
 Bydd beiwyr yn cellwair ein hundeb ;
 Gâd iddynt, fy nghalon, i ti ac i mi,
 Melusach yw serch na doethineb.

Pan gyffwrdd dy wefus a'm gwefus, fy mân,
 Heb g'wilydd, ond gwylaidd a gwiwlan ;
 Fydd rhinwedd yn gwahardd dwy wefus yn un ?
 Na,—nwyfiant o'r nefoedd yw cusan !
 Diniwaid dy gusan, melusach na gwin,
 Dieuog, dibechod, f'anwylid !
 Pe bai fy nghanweddau i gyd ar dy fin,
 Cusanwn hwynt ymait̄h mewn munyd.

O! tyr'd i fy mwthyn a gād y gwag fyd,
 Nid yw heb wir gariad ond sothach ;
 Ein cwsag fydd felusach, ein gwely mwy clyd,
 Na chwsg a gwelyau rhai doethach :
 A phan y bydd stormydd yn chwiban uwch ben,
 A tithau mewn dychryn yn crynu,—
 Cei 'monwes yn lloches rhag dwndwr y nen,
 A'r gwyntoedd a'th sūant i gysgu.

Pan ar ein claf wely 'r edrychwn yn hy',
 I fynu i fyd y goleuni ;
 Pêr weddi fy Ngweno a gyfyd i'r fry
 Ac angau a gyll ei wrthuni ;
 Cusanwn, a d'wedwn,—terfynwyd ein gwaith,
 Ffarwel—a boed ini faddeuant—
 Pelydron dy lygaid oleuant ein taith
 I fynu i fyd y gogoniant.

DAFYDD YN FUGAIL.

—
 GAN PEDR MOSTYN.
 —

Mewn maes yn Methlehem
 Preswyliai Dafydd gynt,
 Yn siriol iawn ei drem
 Mwynhâi ei ddifyr hynt ;
 A drachtiai o ffynnonau pur
 Dangnefedd heb na phoen na chur.

Ei wallt modrwyawg rhydd
 Fel aur o gylch ei ben,
 A'r rhosyn ar ei rudd
 Fel gwrid ar lili wên,
 A'i lygaid fel rhyw ddrychau llon
 A adlewyrchent hedd ei fron.

Cyfodai gyda'r wawr
 A brysiat at y praidd,
 A'i ofal oedd yn iawr
 I'w gwylio rhag y blaidd;
 Nid ofnai arth na llêw ychwaith
 Pan ddewr ymaflai yn ei waith.

Pan ddawnsiai gwên yr haul
 Ar fron y rhosyn brith,
 A'i dywyniadau hael
 Yn gloëwi 'r perlawg wlith,
 A natur fel angyles hardd
 Yn sibrdw swyn i glust y bardd:

Neu pan y byddai 'r lloer
 Yn gwyh ariannu 'r lli,
 A'r sér ar noson oer
 Fel gemau yn ddirf,
 A'r chwâ yn sŷo yn y dail
 Ddystawrwydd nôs o gylch y gail,

Eisteddai ar rhyw dwyn
 A'i fyfyrddodau 'n llawn,
 Yn sain ei delyn fwyn
 Prydyddai 'n bêr ei ddawn,—
 Ei awen redai 'n ffrydiau byw
 O gynnes fawl i'w Arglwydd Dduw.

Ardderchog enw Iôr
 A welai ar ei waith,
 Ar hyd y tir a'r môr
 A thrwy 'r ffurfafen faith;
 A dydd a nôs oedd yn ei glyw
 Yn datgan mawr ogoniant Duw.

Bob dydd fe roddai bwys
 Ei ben ar gadarn fraich,
 Ni theimlai helbul dwys
 Un amser iddo 'n faich ;
 Dan aden Iôn gorweddai 'n glyd
 Yn rhydd oddiwrth drafferthion byd.

DAFYDD YN FRENIN.

—
 GAN PEDE MOSTYN.
 —

RHYW ddiwrnod hynod ddaeth
 A chyfnewidiad chwith ;
 Gwnaed Dafydd rydd yn gaeth
 Gan brophwyd Duw heb rith :
 I'r swydd freninol urddwyd ef,
 Yn ol gorchymyn Arglwydd nef.

Disgynodd ysbryd Duw
 Yn ebrwydd ar y llanc,
 A gwnaeth orchestion byw
 Na welir byth eu tranc ;
 Do, aeth heb arf i faes y gwaed,
 A mathrodd gawr o dan ei draed.

Ond och ! yr helbul ddaw
 O'i uchel haeddawl glod ;
 Gelynyon ar bob llaw
 A'i gwnant i'w saethau'n nôd !
 Mae'n crwydro'n llesg ar hyd y byd,
 A'i einioes yn ei law o hyd !

Ar orsedd Juda mae,
 Yn eistedd gyda'i wyr,
 A mynych boen a gwae
 I'w fron sy'n peri cur,
 Hyd nes daw'r deyrnas oll i'w law,
 Er gwaethaf pawb i'w gadw draw.

Nid allai'r goron aur
 Er hyny adfer hedd,
 Cenhedloedd cryfion taer
 A geisiant siglo'i sedd;
 A'i blant trwy ryw ofnadwy wall,
 A gyd-ddistrywiant naill y llall.

Dwg un drwy dwyll a gwawd
 Ei chwaer i ddwfn sarhád,
 A'r llall a ladd ei frawd
 A cheisia ladd ei dad;
 Ac yntau sydd yn ffoi'n ddilun
 O faen ei anwyl fab ei hun.

Mae'r melusgerddi gynt
 Yn odlau dwys i'r bardd;
 Diflanodd gyda'r gwynt
 Ei holl obeithion hardd:
 Mewn ogo'n mhell o'i gartref mād
 Mae'n cwynfan wrth ei nefol Dad.

Ar ol meddianu'i sedd
 Ac adsefydlu trefn,
 Ailglywir sŵn y cledd
 Trwy'r ddinas hardd drachefn:
 Cwerylant mewn rhyw fympwy ffol
 Y'ng hylch croesawu'r teyrn yn ol.

Gostega'r dymestl dôst
 A gwena'r haul heb goll,
 Pan mewn ymchwyddawl fôst
 Y rhifa'i ddeiliaid oll;
 Ond cleddyf drwy ei galon â
 O herwydd galanasdra'r pla.

Fel hyn o dòn i dòn
 Cyrhaedda ben ei daith,
 A gwel oleuni llon
 Yn nrych yr eigion maith;
 Estyna'i law, a derbyn Duw
 Ef i dawelwch pur i fyw.

Y CARDOTYN.

GAN PEDE MOSTYN.

Uw boreu cychwynai bachgenyn
 O'i anedd, a'i galon yn drom;
 A chanddo'n ei law, fel cardotyn,
 Ei 'screpan yn wag ac yn llom:
 Edrychai o'i amgylch yn wylaidd
 Nes cyrhaedd o wyddfod y tŷ,
 Ac yna a'i fryd yn fwy dewraidd
 Cyfodai ei ben yn fwy hŷ'.

Ni all'sai, pe cawsai anrhegion,
 At ddrysau'i gym'dogion neshau;
 Ac edrych ar un o'i gyfoedion
 Barasai i'w galon lesghau;
 Ond wedi cael allan o'u golwg
 Dechreuai ei orchwyl yn gall,
 Er gwelwi dan ambell i gilwg
 Ymlonai yn ngwênau y llall.

At balas pendefig dynesai
 Lle gwelai bob harddwch mewn trefn,
 Ac heibio cŷ ffyrnig cyfeiriai
 At ffordd oedd yn arwain i'r cefn;
 Ei galon a gurai'n gyflymach
 Na churiad y ddôr gyda'i law,
 Pan ddeuai dyn allan dan rwgnach
 A gwthiai'r cardotyn bach draw.

Gofynai y truan ymddifad
 Am gardod i fachgen tylawd:
 Ond ffromai yr adyn dideimlad
 Gan droi ei erfyniad yn wawd!
 "Dos ymaith o'm gwydd," meddai, "'r awrhon—
 Na ddangos dy wyneb i mi,—
 Os byth deui yma a'th gwynion
 Cei fod ar drugaredd fy nghf."

Y bachgen a'i drem yn siomedig,
 Yn llawn o bryderi a braw,
 A gerddai yn araf ac unig
 At fwythyn a welai gerllaw:

Yr hin oedd yn oer a drycinog
 Ao yntau'n anwydog a gwan,
 Pan gurai dan ddisgwyl yn ofnog
 Mai siomiant drachefn fyddai'i ran.

Y drws a agorid yn ebrwydd
 Gan fenyw serchogwedd a glân,
 Yr hon wedi deall ei dywydd
 A'i galwodd i mewn at y tân ;
 Rh'odd iddo ddigonedd o fara
 A chymwys ymgeledd i'w raid,
 Dymunai fendithion i'w wala
 A gallu Jehofah o'i blaid.

Diolchai y bachgen yn wresog
 I'w noddwraig, wrth gychwyn i'w daith,
 Gan ddeisyf yr un mor ddihalog
 Am fendith y nef ar ei gwaith ;
 Ymlwybrai drachefn nes llwyr-flino
 Pan daenodd cysgodau yr hwyr,
 A'i fam tra'n hir ddisgwyl am dano
 Ei phryder a'i chyffro pwy wyr!

O'r diwedd ei mab glyw yn dyfod
 Adwaena ei droed oddidraw!
 A rhed yn ddioed i'w gyfarfod
 I'w dywys ef erbyn ei law!
 Eisteddant yn siriol yn mynwes
 Yr aelwyd anniddan a llwyd,—
 Y bachgen yn adrodd yr hanes
 A'r fam yn cydranu y bwyd.

“Fy mam” meddai'r bachgen diniwaid—
 Dan bwysio ei law ar ei fron,
 Rwy'n teimlo rhyddhâd i fy enaid
 Wrth ganfod eich llygaid mor llon ;
 Gofidiaf pan fyddwch mewn tralod
 Mae'ch dagrau yn wermod i mi,—
 Mae pob dofn ochenaid yn ddyrnod
 Ac nis gallaf oddef eich cri.

Cychwynais o'r tŷ ar fy neges
 Yn ufydd i'ch archiad, fy mam ;
 Ond tristwch a lanwai fy mynwes,
 Meddylw'n am danoch bob cam ;

Eich delw, yn weddw ac unig,
 Ganlyna'i'm dychymyg drwy'r hynt ;
 Eich agwedd a'ch pryd mor annhebyg
 I'ch golwg foneddig chwi gynt !

Pan welwn rhyw un yn cilwgu,
 Gan wrthod fy neiseb yn ffrom,
 Fe fyddai fy nghalon yn gwaedu
 Wrth feddwl bod *chwi* yn cael siom ;
 Ond pan y cawn groesaw serchoglaw'n
 A gwên o dosturi gan un,
 Eich wyneb *chwi* welwn mor foddlaw'n
 Nes byddwn yn foddlaw'n fy hun !

Yr Arglwydd faddeuo i'r bonedd
 Am wrthod trugaredd i'r gwan ;
 Boed iddo ystyried ei ddiwedd,—
 Ei gyfoeth ni ddeil yn mhob man :
 A llifed bendithion Rhagluniaeth
 Heb fesur i gwpan y dlawd
 A roddodd ymgeledd a lluniaeth
 O'i thostur i mi fel ei brawd.

Fy mam, cyd-ddiolchwn o'n calon
 I Dad yr ymddifaid, sef Duw ;
 Efe ydyw Barnwr y gweddwon
 Efe sy'n ein cadw yn fyw !
 Agorodd Ef ddrws o ymward
 Mewn dirgel wrandawriad i'n llef !
 Efe yw ein tarian a'n nodded
 Boed beunydd ein pwys arno Ef."

"Y MAE YN ATAL EI WYNT GARW AR DDYDD
 DWYREINWYNT."

—
 GAN FREDR MOSTYN.
 —

FEL cadfarch gornwyfus y gwynt a dywysir
 O'i loches a'i ffrwyn ar ei war a ollyngir ;
 Carlama'n ddiarswyd dros benau'r mynyddau
 A sw'n ei weryriad yn adsain drwy'r creigiau ;

Ymbrancia drwy'r maesydd a'r gerddi godidog
 A'u prydferth gynhyrchion a fathra'n ysgythrog!
 Ymdroella drwy'r llwyni—â'i chwidr droadau
 Dadwreiddia y coedydd a rhwyga'u canghenau;
 Ymesyd ar furiau hên oesol gastelli
 A chloddia â'i draed nes dynoethi'u sylfaeni:
 Yn ffrwst ei orphwylledd daw heibio i'r clogwyn
 Dan ruthro bendraphen fel hwrdd yn ei erbyn;
 Y meini a holltant—ofnadwy yw'r cyffro!
 Mae'i lais drwy'r agenau fel llewod yn rhuo!
 Oddiyno ag anadl ei ffroenau chwyddedig
 Crychferwa yr eigion fel crochan berwedig;
 Ei dônu ddeffroant dan rym yr ysgydwad
 A heriant eu gilydd mewn gwyllt ysgyrnygiad;
 Eu hewyn lafoeriant dan effaith cynddaredd—
 I'w herch aflonyddwr bygythiant ddialedd;
 Ymdrechant i'w erbyn ag eithaf eu hegni,
 Ond creulon orletha y march eu gwrhydri:
 Och! tòn ar ol tòn a chwyrndafu yn giprys
 O ddyfnder y weilgi i uwchder arswydus;
 Chwal eilwaith ddefnyddau y dôn ddisgynedig
 Yn darth i'r cymylau â'i fwng ysgwydedig,
 Y llongau a gipir fel ũs i'r uchelder
 A chyflwm ddisgynir hwynt eilwaith i'r dyfnder;
 Yn ngwely'r dôn eohrys ymdroant fel meddwyn
 A'u dynion gwrolaf a waeddant gan ddychryn!
 Chwibana ellyllon y dymestl arnynt
 Yn fyddar i'w cwynion—diystyr o'u helynt—
 Uwch uwch y dyrchafa ei lais ymrysongar
 Mwy fwy yr ymwylltia y gwgus fôr anwar!
 Ond cyfyd y Marchog ei law a gorch'myna,—
 Y gwyntoedd arafwch, y môr ymlonydda!
 A pherffaith dawelwch deyrnasa drwy'r eigion,
 Eifennau beidiasant â'u herchyll ymryson!
 Y dyfroedd ewynol a loewir fel drychau
 A'r pysgod chwareugar arianant y tdnau;
 Yr hwyliau gusenir gan dyner awelon
 A'r morwyr a blethant ganiadau yn fwynlon;
 Ymdaena chwa esmwyth dros wyneb y ddaear,
 A gwens'r dyffrynoedd mewn harddwch digymhar;
 Ymwibia drwy'r llawnion berllanau a'r gerddi,
 Ymchwery â'r blodau heb brin eu hysgogi;
 A llwytha ei hedyn â'u përsawr neithdarol
 Nes llenwi yr awyr ag anadl ddymunol;

Ymsŷa'n bereiddfwyn yn nghanau y goedwig
 Nes deffro yr adar nefolaidd eu miwsig—
 Y defaid a neidiant hyd lethrau y bronydd,
 A'r gwartheg a branciant mewn nwyf hyd y dolydd!
 Hyd finion afonydd daw plantos i chwaraeu,
 Difyrant eu hunain yn murmur eu ffrydiau;
 Yn min yr hwyr gwelir rhianod angylaidd,
 Yn rhodio yn mreichiau eu gilydd yn wylaidd,
 A llanciau difyrus gyflawnant eu campau
 Yn fawr eu llawenydd oddiar y twmpathau;
 Cymylau a nofiant yn araf a harddwych,
 Fel gwlanog gudynau hyd fynwes yr entrych,
 A'r haul yn siriolach o hyd ymddisgleiria
 Fel pe byddai'n gwenu wrth ben yr olygfa:
 Ond wele hardd osgordd yn llys y gorllewin,
 O landeg forwynion yn hebrwng eu brenin,
 A gwrid yn ei wyneb mae yntau'n noswyllo,
 Ac anian dan orchudd mewu hedd yn gorphwyso.

ENAIID.

—
 GAN ALLEN, RHUTHYN.
 —

GWRBICHIONEN *anfarwol*, sef anadl y Duwdod,
 Yn trigo mewn *marwol* adeilad o glai;
Ymcoelydd am enyd a llethrau'r byd isod,
 Ond *brodor* y tragywyddoldeb didrai:
 Gwir *sylwedd* na ddichon y llygaid ei ganfod,
 A *bywyd* na ddichon yr Angau ei ladd;
Dirgelwoch na ddichon meidroldeb ei 'nabod,—
Daeacol ei drigfan, ond *nefol* ei radd!
 Perl gwerthfawr amrhisiawl a *gollwyd* yn Eiden,
 A *gafwyd*—a *brymwyd* gan Iesu fy Nuw,
 Nid ag aur, nac arian, nac ebyrth anorphen,
 Ond a *gwaed bendigaid ei bur galon friw!*

Y DELYN.

 GAN RHUVONTIAWC.

“MwYN yw telyn yn y tŷ,”
 Y'nghanol teulu glandeg,
 A chân a phennill gyd a'i mawl
 Iach, unawl, yn ychwaneg ;
 Mae hyn, a bara, caws, a bir,
 Ar randir yn diriondeg.

Mae rhai am y *Piggo* fwyn,
 A swyn a gânt o'i seiniau ;
 Ac eraill am yr *Udgyrn* sydd
 Yn rhydd bob hwyr a borau ;
 Fe gânt eu mawl bob un fel hyn,
 Os telyn roir i minau.

De'wch gyda fi, holl fechgyn gwlad,
 O gariad gwir rhagorol,
 I wrando sain y delyn fâd,
 Yn nhŷ fy nhad yn hudol :
 Cawn yno hwyl o'r difyr dant
 A nwyfiant melus nefol.

EINIOES DYN.

 GAN IOBWERTH GLAN ALED.

Gwelwyd ef yn dyner blentyn
 Yn blodeno fel y rhosyn ;
 Borau einioes oedd yn agor
 Fel y dail mewn prydfarth borphor.

Gwelwyd ef fel pren talfrigog
 A'i ganghenau yn odidog,—
 Llawn o ddail a ffwrwthau tyner,
 Dan belydrau haul siriolder.

Gwelwyd ef fel derwen uchel
 Ar y boncyff yn ddiogel :
 Canol oedran oedd pryd hyny,
 Yn ei rym n'ol gorphen tyfu.

Ond yn niwedd oes fe wywodd,
 Tu s'r ddaear laith y cwmpodd ;
 Ac o dan effeithiau marw,
 Wele'n awr yn bridd a lludw.

UN CYFALL CYWIR.

—
Gan William Evans, (TREVOR.)
 —

PAN oedd y gwynt i'm cefn
 A'r haul yn t'wnu,
 'Boedd pawb a'i stori'n llefn,
 A phawb yn gwenu ;
 Pob estron fel yn frawd,
 Cyfoethog a thylawd
 Gyffyrddai'i het a'i fawd,
 I'm hanrhydeddu.

'Doedd neb mewn tre' a llan
 A'i air mor bwysig ;
 Gwrandewir y'mhob man
 Ar wr bonheddig :
 'Does dim sy' fel aur coeth
 At wneyd y dyn yn ddoeth,
 Pe b'ai ond rhagrith noeth,
 I'w gadw'n ddiddig.

Yn siriol ar fy ngrudd
 Eisteddai iechyd ;
 Bu rhyngom ffarwel brudd
 Pan oedd e'n diengyd
 Ond er im' gurio'n wael,
 'Boedd pawb a'i rodd yn hael,
 Fel am y cynta'i gael
 Esmwytho 'nghlefyd.

Ond—(waeth heb ddweyd pa fodd)
 Trwy ryw ddamweiniau,
 Fy *ngolud* brau a ffôdd
 Fel niwl y borau ;
 Ond er i'r cyfan ffoi,
 Mi dybiwn, heb ei gloi
 Un drws lle gallwn droi,
 Sef at fy ffryndiau.

Dechreuais gydag un
 Fu'm gynt yn helpio,
 Gan dybied nad oes lun
 Nad oedd e'n cofio ;
 Ond braidd cyn dweyd fy nghwyn
 Hawdd deall wrth ei drwyn,
 Er ceisio bod yn fwyn,
 Mai bach fy nghroeso !

'Dyw hwna ond un o'r cant,
 Mi *dreia* un arall ;
 Ond hwnw grychai'i fant
 Yn ddigon diwall,—
 Dan ddweyd a'i dôn yn grâs,
 Fod rhaid im' ddiodde'r iâs,
 A lliwied imi'n gâs
 Fy nrhoion anghall.

Ymdeimlai rhai mor ddwys
 Nes methu cysgu !
 Wrth feddwl am y pwys
 Oedd arnai'n gwasgu !
 Ond pwy oedd leia eu brys
 Ond hwy, am help eu bÿs,
 Pe buaswn yn fy chwys
 O dano'n trengu !

Gofynais im' fy hun,—
 P'le mae ngyfeillion ?
 Pan nad oedd eisiau'r un
 'Boedd pawb yn weision ;
 Ond pan ddoi'r gyfyng awr,
 Ni chawn drwy'r hollfyd mawr,
 Pe syrthiwn ar y llawr,
 Un cyffail fyddlon !

'Does bellach ond ymroi,
 'Rwi heddyw'n gweled
 Pob cyfaill am f'osgoi
 Mewn adwy galed :—
 Na, na, Fy enaid clyw,
 Mae Cyfaill etto'n fyw!
 'A Chyfaill cywir yw,
 All roi ymwarded.

Un saif pan gefno'r byd,
 Fel pan fo'n llwyddo ;
 Un bery'r un o hyd,
 A phawb yn cilio :
 Er gorfod myn'd yn dlawd,
 A dioddef gŵg a gwawd,
 Bydd Ef yn well na brawd ;
Ymddiried ymddo.

Y FAM A'R PLENTYN.

GAN CADWALADR, BRYMBO.

Fy mlentyn bach, mor dlws dy wedd,
 Mae'th lygad yn fy lloni ;
 Dy fynwes fwyn sy'n llawn o hedd,
 Fy rhosyn a fy lili.

Beth fyddi yn yr amser ddaw ?
 Ai angel bach yn canu ?
 Os felly ni chaf unrhyw fraw,
 O herwydd im' dy fagu.

O ! boed yn nawdd i ti bob cam
 Angelion y gogoniant ;
 Bydd hyny'n gysur i dy fam—
 I tithau'n felus fwyniant.

Tra yma yn y byd yn byw,
 Boed Duw i ti yn darian—
 Ac yna byd anfarwol ryw
 A nef yn gartref gwiwlan.

TYMESTL.

—
 GAN IORWERTH GLAN ALED.
 —

Draw
 Gerllaw
 Dyffryn du
 Mewn awyr fry,
 Mae cwmwl golau, gwyn,
 Ar aden gwawl o fryn i fryn,
 Mae'n duo'n araf, cilia pelydr haul,
 Yn drwm a dig mae prudd-der ar ei ael ;
 Ymchwydda'i fron—ei aden deifl i'r gwynt,
 Mae fel yn cyffro'r awyr leddf ar ddigllawn hynt,
 Cymylau ereill oddi draw yn fyrdd sydd ar ei ol,
 Cysgodion tywyll dafiant oll ar fynydd, bryn, a dôl.

Clywch !
 Uwch uwch
 Mae chwiban gref
 Yn adsain drwy y nef,
 Try'n hirlais udgorn—clywch !
 Na rhüad corwynt mae yn uwch ;
 Twrf *Taran* trwy y nentydd, croch ei llef,
 Nes cryna seiliau bryniau ban—a holl golofnau nef.

Tân
 Fflamau mân,
 Yn gwibio'n gyflym sydd,
 O gwmwl mawr i gwmwl, olwg brudd !
 Y nef oedd bygddu'n olau wna yn awr—
 Tywyllwch a goleuni yn un cymysgfa mawr ;
 Cynddeiriog yw y gwynt—afonydd chwyddant hwy,
 A'r môr mawreddig deifl ei ddig mewn tônau mwy na mwy,
 Ofnadwy olwg!—eilun bach o forau'r farn sy'n sŷn ar dd'od,
 Twrf—twrf—“*a rhygnu croch*”—drwy'r ddaiar lawr sy'n bod.
 Ond huna gwynt—
 Diwedda storm ei hynt—
 Y môr a ymlonydda,
 Y ddaiar werdd ymlona,—
 Yn lle twrf, dystawrwydd sydd—
 Yr Haul oreura'r cymyl fuont brudd,
 Pawb a'i fron, sydd yn llon.

MY COTTAGE HOME.

(From the Welsh of Iorwerth Glan Alod.)

BY BLEDDYN AB GYNFFYN.

Yes! gorgeous palaces
 And marble mansions lie,
 Dotting the spacious earth,
 Beneath heaven's golden eye ;
 Yet, than all these more dear to me
 My little cottage-home must be.

Their splendid chambers all
 Are full of costly things,
 In gold and purple drest—
 Like sunset's glowing wings.—
 But dearer far than these to me
 My rustic cot, my home, must be.

When hoarse-voic'd tempests roar,
 War-trumpets of the sky—
 And crash of whirlwinds fierce
 Is echoing on high—
 Than palace dearer far to me
 My own lov'd cottage-hearth must be.

Luxurious couches rich
 The great man's halls adorn,
 With ruddy silk bedeckt
 And mingled hues of morn !
 But dearer than all these to me,
 Is, in my cot's straw-chair to be.

Gold-colour'd robes there be
 With pearls bespotted fair,—
 From bright and sunny lands,
 Of workmanship most rare !
 Yet this, my home-wrought garb must be,
 For ever dearer far to me.

Oh! sweet is music's voice,
 When science sways in power,—

And sweet the instruments
I've heard in long past hour—
Than these the whirlwind's roar will be,
On my cot-hearth, more sweet to me.

Fair gardens are most rife
In which rich fruits abound,
Where white flowers mid the green
Bestar the happy ground,—
No garden in the world can be
What my home-garden is to me.

Broad beauteous regions lie
The sleepless ocean o'er;
Of wonders are they full
And wealth's unstinted store;
But than all these more joy to me
'Tis my own cottage-home to see.

Not brightest realms of earth
With all their mines of gold—
Nor all the deep sea's pearls,
So beauteous to behold,
May win one loving thought from me—
My thoughts, home-hearth, are all with thee.

I seek no marble tomb
Bedaub'd with letter'd gold,
Above the calm spot where
My coffin'd corse lies cold—
But on the silent stone shall be
A sketch engraved, sweet cot, of thee.

THE FONTLET.

(*From the Welsh of Iorwerth Glan Aled.*)

BY BLEDDYN AB OYNFYN.

O PUREST pearl! in emerald ring,
Bedeck'd with every sweetest flow'r,
In this lone spot, by Nature's hand,
With all her first born loving power—
Fontlet! to me thy look is bright
As peaceful Seraph's eye of light.

Thou silvery spring! thro' pebbles small,
 Thou flashest to the day and gleamest—
 Thro' beauteous brows of fragrant flowers
 Of heavenly dyes—and, oh thou seemest
 An emblem of that fountain blest
 Which once graced Eden's garden-breast.

How fair thou art at eventide,
 While in thee life ecstatic plays—
 A bubbling, bursting, silver flood—
 Like inspiration's gushing lays—
 His cloudy veil the sun now furls,
 And turns thy bubbles all to pearls.

Thou'rt happy in thy sweet-pied bed,
 Earth's bosom like a gem adorning—
 Thy lips are by the pure dew kiss'd,
 The sparkling, stainless wine of morning—
 For ages hast thou made more bright
 This Eden with thy silvery light.

Often perchance in olden time
 Have Jonathan and David here,
 In life's gay morn, sat on thy brink
 Gazing, entranced, thy waters clear,—
 And drank while listening unto thee
 Fresh life to their pure poesy.

They have been sleeping in the grave,
 Full peacefully for many a day—
 But thou art smiling merrily
 With many a bright and sparkling ray—
 Thy whisp'rings to my soul speak more
 Than all their learn'd poetic lore.

The sturdy oak waves o'er thine head—
 Its branches are the wind's harp-strings—
 And over them the breeze of heaven
 Its choral music wildly flings—
 They in thy ceaseless song take part
 To cheer sweet Nature's loving heart.

O lovely Fontlet! my thoughts fly,
 When gazing on thy pearly flood,
 To the world's noblest, purest fount
 On Calvary, which bursts in blood—

All running red, a vein of life,
'Mid herbage green, and heaven-flow'rs rife

To myriads 'tis an eye of life—
In virtue it is infinite—
Within a ring of deathless green,
To cheer the saints, the sons of light.
In God's own crown there is no gem,
More bright than font of Bethlehem.

FY MEINWEN.

Translated from the Welsh by BLEDDYN AB CYNFFYN.

OFF have I turn'd my gaze on high
And mark'd a star rejoicingly
Look thro' the eyelids of the sky,
But what was this to Morfydd's eye?

Why talk men of their concert halls?
On me their labour'd music palls!
My Morfydd's voice, at twilight hour,
Surpasses it in winning power.

Gold and costliest pearls I heed not,
Riches and all their pow'rs I need not;
Owner of Morfydd's heart to be
Is treasure dearer far to me.

As on the bosom of the sea
The sunlight warm rests peacefully;
So shall I, than all else more blest,
Repose upon my Morfydd's breast.

To be with her when day is bright,
To be with her thro' happy night,
Is all, on earth, I can desire—
Could man to purer bliss aspire.

And, still, when in the grave I sleep
Companionship with her I'll keep,
Calm nestling on my Morfydd's breast,
One turf the same shall guard our rest.

FY MEINWEN.

 GAN ANDREAS O FON.

LLAWER gwaith y bu'm yn sylwi
 Ar y seren yn sirioli,
 Draw rhwng emrynt y ffurfafen ;
 Nid yw'n ddim wrth lygad Meinwen.

P'am y sonir am gerddoriaeth ?
 Offerynau yn eu hafiaeth,
 Llais fy Meinwen gyda'r hwyrddydd ;
 A'u dystawa yn dragwydd.

Aed yr aur a'r perlau drudfawr,
 Byth o'm golwg, byth o'm gorawr ;
 Mae fy ngyfoeth at fy angen,
 Draw yn nghalon fwyn fy Meinwen.

Fel mae'r haul ar fynwes eigion
 Yn ymorphwys yn heddychlon ;
 Felly finau'n anwyl fachgen,
 Gorphwys wnaif ar fron fy Meinwen.

Cwmni hon drwy'r dydd cysurus,
 Cwmni hon drwy'r noson hapus :
 Dyna geisiaf ar y ddaear
 Fel fy mhleser mwyn digymar.

A phan hunaf yn yr angau,
 Rhaid im' gael ei chwmmi hithau ;
 Llechaf byth yn mron fy Meinwen,
 O dan nawdd yr un dywarchen.

BARDD YN EI AWEN.

 GAN ANDREAS O FON.

AE fin afonig fach
 Yr wyf yn canu,
 Yn llon a'm bron yn iach,
 Yn awr yn gwenu :

O'm cylch mae'r deiliog lwyn
 A'i fwyn gerddorion,
 A minau gan y swyn
 Yn dyner foddlon.

Dedwyddach wyf fel Bardd
 Yn nghwmni anian,
 Na phe mewn palas hardd
 Llawn aur ac arian :
 Aed cyfoeth gyd a'r lli'
 A mawredd bydol—
 Fy mleser penaf i
 Fydd anian swynol.

YR AMDDIFAD.

—
 GAN CADWALADE, BRYMBO.
 —

A'm deigrin ar fy ngrudd
 Wyf ar fy ngliniau,
 Yn ocheneidio'n brudd
 Bob hwyf a borau,
 Yn unig ar fy hynt
 Heb riant tyner ;
 Yn cwyno gyd a'r gwynt
 Er hyny'n ofer.

Ni welaf byth fy Mam,
 Mae wedi marw ;
 Na Thad i arbed cam,
 Mewn bedd mae hwnw :
 Mae rhyngof fi a hwy
 Y wleb ddaearen—
 A wylu byddaf mwy
 Ar y dywarchen.

Cyd-chwardded beilchion byd,
 Ceir fi yn wylu—
 Tywalltaf ddagrau drud
 A'm gruddiau'n llifo :
 Fy Nhad a'm hanwyl Fam,
 Ni thosturiant—
 Fy nghadw rhag un cam
 Byth ni allant.

PENNILLION I EOS ALED.

GAN IORWERTH GLAN ALED.

GWIW

Gwyn dy liw
 Y gwelais di,
 Fel lili dëg mewn bri
 Yn morau cain dy oes,
 A'th wên yn bur, a'th fron heb loes.
 A dagrau llonder gwlychais di, fy merch,
 A'u sychu wed'yn wnawn â phelydr serch.
 Yn tyfu'n brydferth yn ein tlysaf ardd,
 O'r blodau oll, tydi oedd fwyaf hardd—
 Dy wyllo wnawn ar fin y nôs,
 Rhag dryllio'th ddail, O lili dlos,
 A'r borau gwenu wnawn
 Uwchben dy degwch llawn
 A'm tyner fron
 Yn llon.

Pren

Dan nawdd nen,
 Dan amwisg wyrdd
 A ffrwythau perlysieuog fyrdd
 Y gwelais di am gyfnod bach,
 A'r olwg arnat yn yr ardd yn llon ac iach.
 Ni chaed erioed mewn mân o dan y sér
 Un pren mwy prydferth, gyda ffrwyth mwy pêr,
 Na thi, f'anwylyd, gyd a'th ganghau llawn,
 Dan swynion serch y borau a'r prydawn
 Cynyddu wnait—cynyddu wnaethost di
 A'th dirion nawdd fu 'n llês i mi ;
 Yn brydferth bren
 Dan wên y nen,
 Mewn gardd
 Hardd.

Nôs

Dros y rhôs
 Pant a bryn,
 Welais i yn drist cyn hyn,
 Heb oleu lleuad, nac un seren wan,
 Ond t'wyllwch dybryd yn gordoi pob man.

Ni thorai pelydr bach o unrhyw barth i mi,
 A neb ni sychai'm dagrau, gan deimlo wrth fy nghri!
 Ond rhwng cymylau duon uwch fy mhen,
 Cyfodaist di fel tyner leuad wen,
 Addurnaist y cymylau, ciliodd nôs,
 A'r ddaiar wisgaist â dy fantell dlôs.
 Gwelais fyd, a theimlais swyn,
 Darfyddodd cri a chwyn,
 Minau ger dy fron,
 Yn llon.

Prudd
 Y gwelais ddydd,
 Ystormydd geirwon ar eu hynt
 A minau'n drist o flaen y gwynt.
 Y wybren lās yn troi yn ddu uwch ben,
 Ysbrydion angau'n cwyno drwy yr eang nen—
 Heb ddim ond gofid dwys yn adsain trwy bob man,
 A minau'n wylo'n hidl hallt o herwydd y fath ran.
 Ond o'r fath ddŵch gwelais wawr yn tori fry,
 Newidiad trylwyr, a phelydron cu—
 Cymylau'n cilio—dystaw âi y gwynt
 Ystormydd blin yn huno ar eu hynt
 A flam o olau mawr
 Yn tori i lawr—
Dy wyneb gwyn
Barai hyn.

Sŷn
 Cyn hyn
 Y bum—a gwan,
 Mewn llawer unig fan.
 Ni allai cerddi pêr yr adar mwyn
 Rhwng canghau'r wig ddim lleddfu'm cwyn,
 Er tywallt mawl fel pe telynau fyrdd
 Arllwysent gerddi'r nen rhwng canghau gwyrd
 Myfi yn drist, a'm monwes fach yn llawn o friw,
 Yn fûd arhoswn er holl swyn eu hodlau gwiw—
 Nes deuit ti, gan orphwys ger fy mron,
 Fel Eos fach ar gangen werdd yn llon;
 Un odl dyner genyt ti
 A leddfai 'm cri,
A'm holl gwyn,
Eos fwyn.

Awr

Olaf awr

Ddaw ar frys

Yn ngrym y ddwyfol wŷs

I'n galw ymaith o'r daiarol dŷ

I drigo byth yn y Gaersalem fry.

Trwy yr awyrgylch, heibio'r cymyl prudd,

Y sêr, lleuadau, heuliau 'n fyrdd y sydd,
Tydi ddewisaf fel angyles gain ar edyn gwawl

I'm harwain draw i ganol cylch y nefol fawl,

Dy ysbryd bywiog, y mae heddyw 'n llawn

O'r purdeb geir mewn diniweidrwydd iawn,

Yr hwn gymhwysa pawb i drigfa well

Na'r ddaiar hon, fry, fry, y'mhell.

Caingc felus rodidi imi'n gu

Ar lan yr afon ddu,

*Ac yna hedwn draw**Heb fraw.*

YR ADERYN.

—

CHWENYCHWN gilio draw i'r llwyn

I wrando cân aderyn mwyn—

Yn sain ei ganiad llonai'm bryd,

Anghofwn holl offdiau 'r byd.

Nid oes i ffino calon hwn,

Rhydd yw rhag gofid, poen, a phwn—

Ar ganghen lās y gwllithog bren,

Mae fel rhyw angel bach o'r nen.

Fel ef, pe gallwn, sangwn gaingc,

Er moli 'r Iôr ar orsedd faingc—

Fel ef, ehedwn draw yn mhell

O afael poen i ardal well.

Fy Nuw, wrth rodio daiar lawr,

A nesu at angeuol wawr,

Rho nerth im' deimlo 'n llon ac iach,

A chanu fel aderyn bach.

YR YMEANGIAD.

GAN IORWERTH GLAN ALLED.

Yr awel fach
 Ar fynydd iach
 Un boreu oedd yn llon ;
 Deffrôai'n wan
 Goruwch yr âng fan,
 Anwylaf fan o'r ddaear gron ;
 Ei hedyn ledai, chwyddai'r cylch o hyd,
 Mal syniad angel mewn ysbrydol fyd,
 Nes ffurflo 'n *wynt*, yn *gorwynt* grymus fryd ;
 Clyw'r *chwiban* draw,
 Clyw gorn y gwlaw,
 Clyw rüad erchyll llawn o fraw,
 Ysgydwa'r goedwig, deffry'r âng lwyn,
 Ysbrydion anian yno draethant gwyn,
 Ffroch-gerbyd tymhestl a gynyrfa'r byd,
 Olwynion dyrfant mewn ymchwyddol fryd,
 O'r ddaear draw i'r nen, o'r nen i'r llawr ar ffwrst
 Ymdroella'n ffyrnig mewn cynddeiriog drwst,
 Nes synu myrdd!
 Yr awel fechan, fwyn—yn gorwynt dry
 Wrth ymeangw'n araf fry.

Aderyn mwyn
 Mewn deiliog lwyn
 Ar gangen gwyrddlas bren,
 A bletha gân
 O seiniau mân,
 Mal alaw bêr o'r nen,
 Nes taenu swyn i bawb a'i clyw,
 Y swyn yr hoffir ynddo fyw,
 Er lleddfu bywyd gyda sain
 Anfarwol ryw :
 Yn unig un
 Rhydd gerdd i ddyd,
 Er cychwyn mawl rhyw seingôr pêr cytun ;
 Yn araf daw
 O'r llwyni draw
 Ar edyn cyffym, dorf ddi fraw,
 Nes gwneud y llwyn yn deml maes o law,

Clywch! Clywch!
 Y gân ymchwyddol sydd
 O'u pigau mân
 Yn llon ar foreu'r dydd;
 Fel myrdd o gôrau'r nef
 Yn uno mewn un lef
 Rhwng llwyni Eden werdd,
 Gan chwareu ar delynnau aur, anfarwol gerdd—
 Wrth chwyddo'r gân trwy'r deiliog lwyn,
Mae'n ymëangiad melyn.

Ffynonig glir
 Ar ochr gwyrddlas dir
 Ymlifa draw;
 Mae'r ffrwd yn fechan iawn,
 Yn murmur foreu a nawn,
 Mal pe mewn braw;
 Ar draws y graian mân,
 Rhwng lliwiog flodau glân,
 Nes cyrhaedd nant;
 Yn fuan yno cwrdd â hi,
 Wna ffrydiau ereill yn eu lli',
 Nes chwyddo'n afon èang fri,
 Er gwlychu llawer mant:
 Ymdyrfa dros y graig,
 Ymrfa yn yr aig,
 Ac yn y tro-lyn berwi wna yn grôch,
 Mal twrf wybrenol gan y daran frôch—
 I lawr dros greigiau gan ymdyrfu â
 Yn mlaen i'r eigion—tynu yno wna,
 Nes suddo'n orlif i'r dyfnderau, pan
 Ddystawa'i sain oedd gynt yn beraidd, wan,
 I'r eigion rhuawl
 Ymgynddeiriogawl,
 Ewyna ar y làn;
 Ffynonig fach, wrth ddod i'r terfyn hyn,
Mae'n ymëangiad syn!

Mae Cristion gwan
 Mewn llawer unig fan
 Yn drist ei wedd mewn anial fyd;
 Mae'n unig wrtho'i hun,
 Yn adfeddyliol ddyn,
 Heb fawr o fwyniant i'w wyleiddiaf fryd;

Fel awel fach heb nerth,
 Yn huno'n nail y berth
 Yn aml iawn ;
 Neu fel aderyn mwyn
 Ar gangen fach mewn llwyn
 Yn eilio ambell gainc, er lleddfu cwyn ;
 Neu fel ffynonig fechan ar
 Y fron, rhwng blodau gwar,
 O'i fron ei hun yn esgor swyn ;
 Ond os ymchwydda'r awel
 Mewn awyr fry yn dawel,
 Nes dod yn gorwynt cryf
 I droelli yno'n hyf—
 Os cainc aderyn swyna ato fyrdd
 I lunio miwsig yn y llwyni gwyrdd ;
 Os ffynon fechan gyda'i harian li'
 A chwydda'n gefnfor mewn ardderchog fri—
 Clyw Gristion gwan !
 Cei dithau yn y man
 Ymgodi'n araf o'th wyleiddiaf fryd
 I chwyddo'r gân draw mewn ysbrydol fyd ;
 Daw chwiban awel leddf yn gorwynt cryf,
 A'th gainc sydd isel, yn un seingor hyf—
 Dy si sydd fel murmurog ffynon wan
 Ymchwydda yno'n rhaiadr yn y man—
 A'r oll mor bêr nes synu engyl cain
 Gan amrywisethau y gyfunol sain ;
 Un Haleluwia fawr
 Hyd gyrau'r nefol wawr,
 A gyfyd myrdd—
 Nes Anthem Calfari
 Fydd yn ei dwyfol fri
 Rhwng llwyni gwyrdd—
 I blant y codwm, pery'n fythol ddydd,
 Uwch, uwch, ymgodant yn yr awyr rydd,
 O'u plaid yn awr, y gref addewid sydd,
 UN YMEANGLAD FYDD.

DYFODIAD Y MESSIAH.

 ALLAN O BRYDDEST GUTYN PADARN AB DDOETHINEB DUW.

Ond pob rhyw ddygwyddiad at ddydd y Messiah,
 Ymhlith pobl ddewisol yr Arglwydd, gyfeiria ;
 Prophwydi gyfodant, a thrwy ysbrydoliaeth
 Duw Iôr rhagddywedant nesâd ei freniniaeth ;
 Ac eglur ddadganant holl hanes ei fywyd,
 Ei loesau, a'i angeu, a'i godiad o'r gweryd ;
 A'r modd y sefydla ei deyrnas ysbrydol,
 Cyn iddo ddychwelyd i'w gartref tragwyddol,
 Seren ar ol seren i'r byd rydd oleuni,
 O flaen Haul Cyflawnder, cyn iddo gyfodi ;
 A'i ffordd wneir yn barod gan ddwyfol ddoethineb,
 Cyn iddo droi allan o lys tragwyddoldeb !
 Rhyfeloedd a therfysg trwy'r ddaear a beidiant,
 A rhodau'r amseroedd yn llonydd a safant ;
 A'r holl greadigaeth a welir mewn pryder,
 Wrth ddysgwyl y Ceidwad i lawr o'r uchelder.
 A dygir o amgylch ddybenion Duw'r lluoedd,
 Yn nghwmp a chyfodiad, a dinystr teyrnasoedd ;
 Rhyfelwyr galluog, a phenau coronog.
 Balmantant ei llwybrau trwy'r ddaear gwmpasog,
 Ac fel offerynau yn llaw eu Penllywydd,
 Y byd barotoant i'r nefol Waredydd.

O forwyn ddinodded yn dlawd caiff ei eni,
 Heb fawredd daearol, na bri i'w hynodi ;
 Ond engyl bro gwynfyd i lawr a ddisgynant,
 I'w arwain i'r ddaer o lys ei ogoniant ;
 A seren na welwyd o'r blaen a ymddengys,
 I wneyd ei ddyfodiad at ddynion yn hysbys.
 Etifedd bro'r gwynfyd, a'i heuraidd balasau,
 A'r hwn sydd yn galw llu'r nef wrth eu henwau,
 A welir pryd hwnw heb le i breswyllo ;
 A dynion wrthodant eu Harglwydd, pan ddelo !
 Amlygir dyfnderau doethineb Duw'r nefoedd,
 Wrth ddwyn i blith dynion Iachawdwr y bydoedd ;
 A'i arwain o'r beudŷ, lle'i genir, i'w orsedd,
 A'i ïang lywodraeth heb ddechreu na diwedd.
 Ac unir dynoliaeth yn awr gyda'r Duwdod,
 Mewn dull fydd i fodau gogoniant yn syndod !

Ar liniau'i creadur ei hun yn wan faban,
 Y gwelir y Brenin anfarwol ei hunan ;
 A'r Bod sydd yn llenwi 'r meithderau tragwyddol,
 Babella am amser tumewn i gorff dynol !
 Bydd hwn yn ddirgelwch nad all un creadur,
 Amgyffred ei ddyfnder, na dirnad ei natur.
 Y Duw Hollallnog amgylchir â gwendid,
 A'r hwn sydd anfeidrol, ac nad all gyfnewid,
 A una ei natur â natur newidiol
 Dynoliaeth lygredig, sydd egwan a marwol.
 Gogoniant a gwarthrudd, cyflawnder ac eisiau,
 Y bywyd ei hunan, a deiliad i angau,
 A welir mewn undeb yn mherson Crist Iesu,
 Pan ddaw yn orchfygwr ar d'wysog y fagddu.
 A'r natur anurddwyd trwy ddichel y gelyn,
 A dery 'i lywodraeth yn awr gyda dychryn ;
 Y wraig ga'dd ei thwylo gan ddiadol yn Eden,
 A ddaw etto 'n fendith i lwythau 'r ddaearen.
 Dynoliaeth a Duwdod mewn undeb a'u gilydd,
 A lanwant y cyfwng rhwng dyn a'i Greawdydd ;
 A gwnant Crist yn gymhwys i sefyll ac eiriol,
 Rhwng marwol droseddwr a'i Farnwr tragwyddol !
 Yn ufudd i gyfraith yr Iôr trwy ei fywyd,
 Heb le i breswyllo, heb fawredd na golud,
 Y cerdda o amgylch, gan wneuthur daioni,
 A chodi dynoliaeth o warth a thrueni.
 Rhydd dafod i'r mudan, a chlyw i'r byddarion,
 I'r meirwon rhydd fywyd, a golwg i'r deillion,
 Ac yn ei athrawiaeth, i'r byd yr eglura
 Ddirgelion tragwyddol, a chyngor Jehofa.
 Trwy len ei ddynoliaeth pelydra ei Dduwdod,
 Nes gwneyd i bob llygad yn hawdd ei adnabod ;
 A dwyfol acenion, llawn gwllith anfarwoldeb,
 Oddiar ei wefusau, a ddysgant ddoethineb.

Trwy fyned dan felldith a gwarthrudd dros ddynion,
 Rhydd iawn i gyflawnder, y ddeddf, a'i gofynion ;
 A thrwy ei farwolaeth i'r byd bydd yn fywyd,
 Ei ofid a'i drallod i filoedd dry 'n wynfyd !
 Daw Satan i'w erbyn, a chyfyd elynion
 O'i genedl ei hunan, i'w erlid yn greulon ;
 Ac fel drwgweithredwr, o'r diwedd croeshoeliant
 Eu dwyfol Waredydd a Brenin gogoniant !
 Ger bron mainc cyflawnder a barnwr daearol ;
 Mewn dirmyg y dygant y Perydd tragwyddol,

Dan farnol ddallineb, cydunant i'w wawdio,
 Wrth iddynt ei arwain i gael ei groeshoelio.
 A drain ei coronant, a phoerant i'w wyneb,
 Nes syna holl natur wrth wel'd y trychineb ;
 A thystia 'r gre'digaeth mai Mab Duw a ddyoddef,
 A'i hagwedd a newid wrth glywed ei ddolef ;
 Y creigiau a holltant, cynhyria 'r dyfnderoedd,
 A'r haul a ddiflana yn nghanol y nefoedd.
 Gruddfanau 'i Chreawdwr rydd gryndod trwy 'r ddaear,
 A'r byd a ymwisga mewn du-nos o alar !
 Ond yn ei farwolaeth y maedda 'i elynion,
 Gorchfyga deyrn uffern, dinystria 'i gynllwynion,
 Ac egyr i ddyinion holl ddrysau gogoniant,
 A nefoedd a daear mewn hedd gyfarfyddant.
 Dros dridiau a theirnos y gorwedd mewn beddrod,
 A maen mawr, a rhingyll o filwyr i'w warchod ;
 Ond ni fydd gan angeu awdurdod na gallu
 I'w ddal, pan ddaw 'r amser penodol i fyny ;
 A chyn gwawria boreu y trydydd ddiwrnod,
 Cadwynau marwolaeth, a rhwymau 'r bedd ddatod,
 A'r ser cyn machludo, a'i gwelant yn codi,
 O deyrnas marwoldeb mor deg a'r goleuni.

Ac erys i drefnu ei ddwyfol fwriadau,
 Ar ol ei gyfodiad, dros ddeugain o ddyddiau ;
 A chyn ei ddychwelyd yn ol i'w ogoniant,
 Ei ffyddlawn ganlynwyr o'i amgylch ddynesant,
 I dderbyn commisiwn a bendith eu Hathraw,
 A gofal ei eglwys ar ol iddo'u gadaw.
 I'r ddaear eu henfyn i ddysgu 'i athrawiaeth,
 Ymhell ac yn agos—i bawb heb wahaniaeth,
 Gan wahodd pob cenedl, lle bynag y byddo,
 A chynnyg maddeuant i bob un a gredo.
 Estynir terfynau y nefawl freniniaeth,
 Yn awr, trwy 'r holl ddaear, a'i dwyfol lywodraeth,
 A threfn iachawdwriaeth yn hwy ni chyfyngir
 I un wlad o'r ddaear—ond pawb a wahoddir.

Yn ol i'w ogoniant mewn cwmwl yr esgyn,
 A llygaid ei weision trwy 'r wybr yn ei ddilyn ;
 Ac yno 'r eistedda ar ddeheu y Mawredd,
 Gan godi dynoliaeth at Dduw ar ei orsedd.

GLAN YR IORDDONEN.

GAN IŪUAN GLAN GRIRIONYDD.

AR lân Iorddonen ddofn
 'Ewyn'n oedi'n nychlyd,
 Mewn blys myu'd drwy—ac ofn
 Ei stormydd enbyd ;
 O na f'ai modd i mi
 Ysgoi ei hymchwidd hi,
 A hedfan uwch ei lli
 I'r Ganaan hyfryd.

Pan gofiwyf rym y dw'r,
 A'i thònog genlli',
 A'r mynych rymus wr
 A suddodd ynddi ;
 Mae braw drwy f'enaid gwan,
 Mai boddi fydd fy rhan,
 Cyn cyrhaedd tawel lân
 Bro y goleuni.

Ond pan y gwelaf draw,
 Ar fynydd Sion,
 Yn iach, heb boen na braw,
 Fy hen gyfeillion,—
 Paham yr ofnaf mwy ?
 Y Duw a'u daliodd hwy
 A'm dyga innau drwy
 Ei dyfroedd dyfnion.

MOLAWD SIR DDINBYCH.

GAN G. CALEDREYN.

PE meddiannwn, yn fy nydd,
 Awenydd dra chywreiniwch,
 A mawr ddysg a dyall fraeth,
 A gwir wybodaeth ddoethwch,
 Canu wnawn ogoniant pêr,
 Hardd, iawber i Sŵr Ddinbych.

Pe syldremwn yma a thraw,
 Gan chwiliaw 'n ddwys ac edrych
 Ar brydferthwch llawer bro
 Sydd yn blodeuo 'n harddwych,
 Anhawdd canfod drwy'n byd bach,
 Le gwychach na Sir Ddinbych.

P'le mae tiroedd ffrwythlawn, pur,
 Ac awyr iach hyfrydlon,
 Gerddi, llysiau pêr, wrth raid,
 Ac anifeiliaid ddigon,
 Llwyni gwyrddion, heirdd eu drych?
 Hyd oror Dinbych dirion.

Os chwilio wneir am greigydd serth,
 A phrydferth, lân ddyffrynoedd,
 A diadellau yn pori hyd
 Ryw hyfryd ochrau brynoedd,
 Ac w'n bach yn prancio 'n wych;
 Hyd Ddinbych ceir llaweroedd.

P'le ceir Gwenith, Rhyg a Haidd,
 A lluniaidd, wych berllanau,
 Grawnwin hyfryd, hardda' erioed,
 Ac amryw goed afalau,
 Blodau teg, bron ar bob gwrych?
 Yn Ninbych haelwych olau.

Dysglaer ydyw dyfroedd olau
 Rhaiadrau heirdd, pelydrawg,
 Hardd yw brig y dôn yn gwau,
 Ar ddyddiau hafaidd gwresawg,
 Ond nid gloewach fydd eu drych
 Na thiroedd Dinbych enwawg.

P'le ceir cynar ganiad côg,
 A bywiog dôn yr 'hedydd,
 Adar mân yn cydwau mawl,
 Dymunawl hyd y manwydd?
 Yn mro Dinbych lwswych, lon,
 Hardd, ddeiliog, wyrddion ddolydd.

Pe chwenychid cael mwynhad
 O harddwych wlad oludog,
 Lawn o ffrwythydd hyfryd, hael,
 A diwael goed blodeuog,

Dyffryn Clwyd yw'r unig fan,
Rad, wiwlan fro dawelog.

Pan oedd tywyllwch yn mhob bro,
Yn cuddio hên wlad Cymru,
Heb unrhyw obaith toriad gwawr,
Yn nghanol dirfawr fagddu,
Haul gwybodaeth wnaï uwch ben,
Yn Ninbych wen dywynu!

AWENYDD.

—
GAN G. CALEDFRYN.
—

AWENYDD a adwaenir—wrth ei gwedd,
Ac wrth y gwaith wnelir;
Nid yw pob peth a blethir,
O'r un waed a'r awen wir.

Nid rhydd awenydd anian—ydyw sŵn
Cydseiniaid yn clecian;
O dinc i dinc, yn rhincian,
Mae oer gerdd rhigymwr gwan.

Llwyd wau rhimynau meinion,—dienaid
Dyna wna ynfydion;
Awen uchel, annichon
Pr dyn hurt wir adwaen hon.

E ddyrydd ansoddeiriau—heb ochel,
Nes beichio'r brawddegau;
Sŵn, a gwynt, yw'r cwbl sy'n gwau
Yn ei hyllion linellau.

Awenyddion rhinweddol—yw rhif fawr
O feirdd sy'n bresenol;
Bolerwyr, glerwyr y glol,
I dâw sy'n cael eu deol.

—
I. CLARKE, ABGRAFFYDD, BHUTHYN.

